

Frac Llydaw, Roazhon/Rennes

<https://www.fracbreteagne.fr/fr/>



Hyd: 2 fis

Ar gael: 6 Ionawr-2 Mawrth 2027

Mae preswylfa Magnetig 5, dan arweiniad Frac Llydaw, yn cynnig 7 wythnos o ymchwil ymdrochol yn <<La Galerie (Binig-Étables-sur-Mer) ac wythnos o rwydweithio proffesiynol yn Roazhon/Rennes.

Frac Llydaw

Sefydlwyd Frac Llydaw ym 1981. Mae'n sefydliad celf blaenllaw yn Llydaw. Drwy raglen uchelgeisiol o arddangosfeydd, lledaenu a dogfennu'r casgliad a nifer o raglenni i'r cyhoedd, nod y prosiect "Creu ynysforoedd" yw cwestiynu sut mae'r sefydliad yn gallu diwallu dyheadau ein cymdeithas. Mae cynhwysiant, amrywiaeth a bod yn agored i feysydd eraill o ddisgyblaeth yn Llydaw a gweddill y byd yn bwysig i'r genhadaeth. Mae'n eu cynnwys drwy bolisi cyfryngu a chyfranogol a gweithio'n rhyngwladol a chyda sefydliadau eraill. Mae hefyd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chydaddoldeb rhywiol a bod yn ecogyfrifol.

<<La Galerie

<https://www.Binig-etables-sur-mer.fr/galerie-municipale/>

Mae'n lle celf gyfoes 248m² yn Binig-Étables sur Mer. Mae'n ymroddedig i greu ac arddangos celfyddydau gweledol. Ers ei agor yn 2014, mae wedi ymsefydlu'n lleoliad diwylliannol allweddol i'r dref gan gadarnhau ei rhan ganolog ym mholisi diwylliannol y drefol.

Mae'n cynnal deialog â'r ganolfan ddiwylliannol L'Estran, Llyfrgell Renée Guilloux a Sinema Korrigan, gan feithrin cysylltiadau rhwng disgyblaethau artistig ac annog symudiad y gynulleidfa rhwng lleoliadau. Mae pob tymor wedi'i greu o amgylch thema gyffredin i greu pontydd rhwng y celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, dawns, theatr a llenyddiaeth gan gynnig profiad cyfoethog i ymwelwyr.

Mae ei rhaglen ddinesig yn cyflwyno gwaith gan artistiaid proffesiynol ac sy'n dod i'r amlwg. Mae tair arddangosfa yn digwydd bob blwyddyn a phreswylfa greadigol sy'n meddwl bod y lleoliad yn fan cyfarfod i'r artistiaid a'r gymuned.

1/ FFOCWS

Cyrchfan glan môr i'r teulu yw Binig-Étables-sur-Mer. Mae'n cynnig tirwedd gyfoethog ac 8

cilomedr o'r arfordir. Mae yno bum traeth gwahanol (teuluol, heb eu difetha, bywiog, diarffordd) a childraethau, clogwyni a dyffrynnoedd coediog. Mae <<La Galerie yn rhan o'r lle ac yno mae trigolion, cerddwyr a thwristiaid yn cwrdd.

2/ ADNODDAU'R RHAGLEN

Mae'r breswylfa'n cynnig:

- Ffi i'r artistiaid o 2500 €/mis
- Llety preifat wedi'i ddodrefnu yn Oriel Dourven a Roazhon/Rennes
- Cefnogaeth guradurol gan Etienne Bernard, cyfarwyddwr Frac Llydaw ac Elsa Briand, cyfarwyddwr Oriel Dourven
- Cyswllt â phwysigion rhanbarthol (cymdeithasau, sefydliadau, curaduron, artistiaid, ac ati)
- Tâl am y daith yma ac yn ôl o Brydain/Ffrainc a chludiant lleol

3/ HYGyrCHEDD

Mae <<La Galerie yn yng nghanol y dref gan ffurfio triongl diwylliannol gyda'r sinema a'r llyfrgell ac yn agos at neuadd y dref. Mae'n hygyrch i bobl â symudedd llai.

Ond mae llety'r artistiaid, sydd 350 metr o <<La Galerie, yn stiwdio sawl rhes o risiau ac nid oes lifft.

Mae'r stiwdio ar y llawr uchaf gyda gwely sengl, cegin fach ac ystafell ymolchi gyda thoiled.

Mae fflatiau eraill yno i gymdeithasau yn y dref sy'n rhannu'r un llawr. Mae'n bosibl lletya cynorthwydd neu aelodau o'r teulu gyda chytundeb tîm <<La Galerie yn amodol ar argaeledd.

Mae'r gweithle yn <<La Galerie.

Mae cludiant cyhoeddus (bysiau sy'n gadael o ganol y dref neu'r ardal fasnachol).

Yr orsaf reilffordd SNCF agosaf yw Sant-Brieg, 20 cilomedr i ffwrdd.

Mae beiciau ar gael i'w llogi.